Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19 | Welsh Government Draft Budget 2018-19
WGDB_18-19 21 Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19: tystiolaeth gychwynnol i'r Pwyllgor Cyllid

Mis Medi 2017

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19: tystiolaeth gychwynnol i'r Pwyllgor Cyllid

Dyma ddogfen gryno iawn, er mwyn peidio colli'r cyfle i ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid am dystiolaeth ymlaen llaw ynghylch disgwyliadau ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19.

Bydd UCAC yn paratoi tystiolaeth llawer mwy manwl erbyn i'r broses ddechrau'n ffurfiol ym mis Hydref.

Mae UCAC yn eithriadol o bryderus ynghylch sefyllfa ariannol ysgolion. Er bod y gyllideb addysg wedi'i diogelu i ryw raddau, o'i chymharu â meysydd eraill, nid yw hynny'n amlwg ar lawr y dosbarth.

### Gweithlu'n lleihau

Fel undeb llafur, gwelwn fod ysgolion ledled Cymru yn mynd trwy brosesau diswyddo staff – yn athrawon ac yn gynorthwywyr dosbarth, hynny yw, yr addysgwyr rheng flaen.

Yn gyffredinol, nid yw hyn mewn ymateb i leihad yn nifer y disgyblion, ond yn hytrach oherwydd prinder arian. A'r effaith, yn fyr, yw bod y gweithlu addysg wedi lleihau'n sylweddol ac yn gyflym dros y saith mlynedd diwethaf.

Mae ystadegau Cyngor y Gweithlu Addysg[1] yn dangos y lleihad yn glir, gyda'r lleihad yn dwysau bob blwyddyn dros y pedair blynedd diwethaf.

**1.1 Nifer yr athrawon ysgol sydd wedi'u cofrestru â CGA**

| | Mawrth 2013 | Mawrth 2014 | Mawrth 2015 | Mawrth 2016 | Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer yr athrawon | Nifer yr athrawon | Nifer yr athrawon | Nifer yr athrawon | Nifer yr athrawon |
| CYFANSWM | 37,862 | 37,673 | 37,355 | 36,951 | 36,182 |

Rhwng 2010 a 2017 mae 2,714 yn llai o athrawon wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA), sef gostyngiad o 7%. Ar hyn o bryd nid oes modd gwneud yr un gymhariaeth ar gyfer staff cymorth dysgu am mai dim ond yn ddiweddar y maent wedi'u cofrestru gyda CGA.

Caiff hyn nifer o sgil-effeithiau negyddol iawn:

- Dosbarthiadau mwy o faint – yn aml dros 30
- Anallu i barchu cyfraddau oedolion:plant yn y Cyfnod Sylfaen
- Athrawon uwchradd yn dysgu nifer cynyddol o bynciau; golyga hyn treulio amser yn dysgu pynciau sydd y tu hwnt i'w harbenigedd, ac o ganlyniad llai o amser yn eu pynciau arbenigol eu hunain; mae'r sgil-effaith o ran llwyth gwaith paratoi ac asesu yn ddifrifol; mae gennym enghraifft o athro'n dysgu 5 pwnc gwahanol
- Mae ysgolion uwchradd dwy-ffrwd yn aml erbyn hyn yn gorfod cyfuno'r ffrwd Gymraeg a Saesneg mewn un dosbarth, a dysgu drwy gyfrwng y ddwy iaith ochr yn ochr; mae hyn yn cael effaith negyddol iawn ar lwyth gwaith

[1] http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/ymchwil-ac-ystadegau/ystadegau-r-gweithlu-addysg

## Ail-strwythuro

Yn ogystal â diswyddo, gwelwn ysgolion yn ail-strwythuro gyda'r bwriad o leihau costau. Mae'r ail-strwythuro'n aml yn gweld athrawon yn colli eu lwfansau am gyfrifoldebau ychwanegol, er nad yw lefel y cyfrifoldeb yn lleihau.

Tuedd cynyddol, yn ogystal, yw ceisio osgoi penodi dirprwy-bennaeth, ac yn hytrach i benodi pennaeth cynorthwyol. Mae hyn yn arwain at arbedion o ran costau, ond cynnydd sylweddol o ran pwysau a chyfrifoldeb ar y pennaeth.

## Cyflogau

Wrth reswm, mae UCAC wedi bod yn dadlau dros godiad cyflog i athrawon ers sawl blwyddyn, gan fod unrhyw godiad cyflog sydd wedi dod ymhell o dan y lefel chwyddiant.

Fodd bynnag, rydym yn gresynu at y ffaith fod unrhyw godiad cyflog sydd wedi'i roi (1%) dros y blynyddoedd diwethaf, yn gorfod dod o gyllidebau presennol. Hynny yw, nid yw Llywodraeth San Steffan yn ariannu'r codiad cyflog, ac nid yw Llywodraeth Cymru'n derbyn unrhyw ychwanegol i'w ddyrannu i Awdurdodau Lleol. Effaith hyn, yn naturiol, yw lleihau'r gyllideb addysg.

## I gloi

Rydym o'r farn fod sefyllfa ariannol ein hysgolion yn beryglus o fregus, a'n bod yn cyrraedd pwynt ble mae perygl i safonau addysgol.

Yn sicr, mae bwlch mawr rhwng uchelgais Llywodraeth Cymru o ran ei chynlluniau diwygio (cadarnhaol a chymeradwy) a'r lefelau ariannu sy'n cyrraedd ysgolion.

Bydd UCAC mewn sefyllfa i roi dadansoddiad manylach erbyn i'r broses ffurfiol o graffu ar y gyllideb ddrafft gychwyn ym mis Hydref.

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru